Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 22 Gorffennaf 2025, am 2yp (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Phil Kloer | Chenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Marc Tierney | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro |
| | (gadawodd am 3.40pm) |
| Darren Mutter | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac |
| Mydrian Harries | Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jessica Bickerton | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Gwasanaethau |
| Linda Jones | Gwirfoddol Sir Benfro |
| Iwan Thomas | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Mandy Williams | (gadawodd am 2.57pm) |
| Alison Perry | Prif Weithredwr, PLANED |
| Ardiana Gjini | Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Caroline Drayton | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu |
| Rhian Bennett | a Throseddu |
| Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd |
| Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Aelod Cabinet dros Bobl Ifanc, | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cymuned, Llesiant a | Uwch-reolwr Comisiynu, Cyngor Sir Penfro |

<u>*Cymorth/ysgrifenyddiaeth*</u>

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir |
| Claire Germain | Penfro |
| Barry Walters | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a |
| Tom Moses | Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| | Un Llais Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 2.04pm

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd PK bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / cofnod y camau gweithredu**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Roedd yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd wedi'u cwblhau a byddai diweddariadau ar gamau gweithredu 2 a 3 yn cael eu darparu yn ystod y cyfarfod.

Nododd NE, ar gyfer Cam Gweithredu 5, nad oes cadeirydd parhaol ar waith ar gyfer yr Is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd. Mae Tegryn Jones o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cynnig cadeirio cyfarfodydd yn y cyfamser, ond nid yw'r grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 3. Penodi cadeirydd/is-gadeirydd

Gofynnodd PK i'r grŵp am enwebiadau ar gyfer cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Esboniodd y byddai gofyn i'r enwebeion adael y cyfarfod am gyfnod byr er mwyn i'r grŵp drafod a phleidleisio.

*Penodi cadeirydd*

Enwebodd PK y Cynghorydd Marc Tierney i gymryd rôl cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd MT y byddai'n hapus i ystyried y rôl hon a gadawodd y cyfarfod am gyfnod byr am 2.12pm.

Trafodwyd enwebiad MT i fod yn gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chynhaliwyd pleidlais drwy godi llaw. Cytunwyd yn unfrydol mai MT ddylai fod yn gadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ailymunodd MT â'r cyfarfod am 2.18pm a derbyniodd y swydd.

*Penodi is-gadeirydd*

Gofynnodd PK i'r grŵp rannu eu henwebiadau ar gyfer is-gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Enwebodd MT Jessica Bickerton i ymgymryd â'r rôl hon. Mynegodd JB ei bod yn hapus i ystyried y rôl hon a gadawodd y cyfarfod am gyfnod byr am 2.20pm.

Trafodwyd enwebiad JB i fod yn is-gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chynhaliwyd pleidlais drwy godi llaw. Cytunwyd yn unfrydol y dylai JB fod yn is-gadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ailymunodd JB â'r cyfarfod am 2.22pm a derbyniodd y swydd.

## 4. Diweddariadau ar brosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

*Cryfhau Cymunedau*

Dywedodd PK nad oes gan yr Is-grŵp Cryfhau Cymunedau gadeirydd mwyach ers i'r Cynghorydd Neil Prior ymddiswyddo o'i rôl. Gofynnodd RB a oedd hyn yn rhywbeth y gellid ei drafod ym mhrif gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu a ddylid ei adael tan gyfarfod nesaf yr is-grŵp. Cadarnhaodd PK y byddai'n ddefnyddiol i gadeirydd ac is-gadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried yn gyntaf a oes gan y Bwrdd y cydbwysedd cywir o raglenni ac arweinyddiaeth cyn gwneud penderfyniadau pellach. Cytunwyd y byddai cadeirydd newydd ar gyfer yr Is-grŵp Cryfhau Cymunedau yn cael ei ystyried yn ddiweddarach.

Rhoddodd RB ddiweddariad ar Gryfhau Cymunedau:

- Lansiwyd y strategaeth wirfoddoli yn dilyn digwyddiad dan arweiniad Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro yn Neuadd y Frenhines yn Arberth. Roedd presenoldeb da a thrafodaeth galonogol yn y digwyddiad.

- Datblygwyd strategaeth cymunedau oed-gyfeillgar, a bydd hon yn cael ei rhyddhau i ymgynghori arni yn ystod yr haf.
- Gwahoddwyd rhai cydweithwyr i gynhadledd ddiweddaraf gofod3 i gynnal sesiwn ar gryfder partneriaeth ac iechyd a lles, ochr yn ochr â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Derbyniwyd adborth cadarnhaol o'r sesiwn hon.
- Mae gwaith y Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol wedi arwain at greu pecyn cymorth o adnoddau sy'n ymwneud â chynghreiriau a chomisiynu cydweithredol.
- Lluniwyd cynlluniau ar gyfer cynhadledd cymunedau, tebyg i'r Uwchgynhadledd Tlodi, gan yr is-grŵp gweithredol. Bydd hyn yn dod â phartneriaid ynghyd i rannu arfer da, ystyried sut olwg sydd ar y dyfodol, a meddwl am sut i fynd i'r afael â heriau. Cynhelir sgyrsiau gyda phartneriaid i ystyried sut y dylid ariannu'r digwyddiad hwn. Cyflwynwyd y cynigion i'r grŵp strategol ac fe'u cefnogwyd mewn egwyddor.
- Nid yw cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i ddyrannu ar gyfer parhau â gwaith cydgynhyrchu ac ymgysylltu. O ganlyniad i hyn, nid oes capasiti ar hyn o bryd i drefnu sesiynau'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu at y dyfodol. Gofynnodd RB i unrhyw bartneriaid a allai fod â'r gallu i gefnogi'r gwaith hwn roi gwybod.
- Arweiniodd cynllun peilot 2024/25, y Newid Mwyaf Arwyddocaol, at drafodaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a datblygu adroddiad gwerthuso. Mae'r adroddiad gwerthuso yn cynnwys nifer o argymhellion i helpu i lunio'r gwaith hwn wrth symud ymlaen. Mae arian y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i gefnogi'r broses barhaus o gyflwyno a gwreiddio methodoleg y Newid Mwyaf Arwyddocaol. Yn ogystal, bydd sesiwn hyfforddiant i'r dyfodol yn cael ei dosbarthu'n fuan i gydweithwyr sydd am wella eu sgiliau a'u profiad o gasglu straeon. Wrth symud ymlaen, bydd trafodaethau ar gyfer y Newid Mwyaf Arwyddocaol yn cael eu targedu'n bennaf at aelodaeth benodol yn hytrach nag at Grŵp Cryfhau Cymunedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd straeon sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, er enghraifft, yn cael eu cyfeirio at arweinwyr sydd â rôl benodol yn y maes gwaith hwnnw.

Tynnodd LJ sylw at y ffaith y bydd y Panel Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector yn ehangu i Sir Benfro, ac y gallent gynnig rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer gwaith cydgynhyrchu. Cytunodd MW y byddai hwn yn blatfform defnyddiol i gysylltu ag ef ac y gallai Prosiect Dewi, a fydd yn rhedeg tan fis Chwefror nesaf, hefyd ddarparu cefnogaeth i'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu. Ychwanegodd IT y bydd alinio'r rhwydwaith â'r byrddau hyn hefyd yn darparu'r diogelwch a'r cynaliadwyedd sydd eu hangen ar bartneriaid y trydydd sector i fod yn hyderus yn nyfodol y gwaith hwn.

Trafododd IT fod llawer o waith yn digwydd yn y sector cymunedol nad yw wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddaru Cryfhau Cymunedau. Nododd fod llawer o hyn o ganlyniad i golli cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond, wrth symud ymlaen, bydd y Grŵp Cryfhau Cymunedau yn ymdrechu i sicrhau bod y prosiectau hyn yn cael eu codi a'u diweddaru'n ffurfiol. Nododd RB fod y Grŵp Cryfhau Cymunedau wedi cytuno'n flaenorol ar bum blaenoriaeth, a ddatblygwyd o'r cynllun llesiant, sy'n cael eu diweddaru'n aml yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y grŵp nawr yn ailystyried y blaenoriaethau hyn gan fod cyllid ar gyfer llawer o brosiectau wedi newid a bod meysydd gwaith pwysig eraill yn cael eu hamlygu. Mynegodd PK y dylai'r grŵp flaenoriaethu'r meysydd gwaith lle gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael y dylanwad mwyaf.

Dywedodd AG y cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol o dri awdurdod lleol. Roedd hyn er mwyn trafod symud y gwaith gyda Cormac Russell ar waith rhanbarthol ymlaen, yn seiliedig ar asedau ar gyfer unigolion a chymunedau. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu'n gyflym a bydd yn cyd-fynd â gwaith pob

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth. Darperir diweddariad pan fydd cytundeb terfynol ar hyn. Awgrymodd PK y gallai Cormac Russell a'r maes gwaith hwn ychwanegu gwerth at y gynhadledd gymunedol arfaethedig. Ychwanegodd AG y bydd y gwaith yn cael ei gynnal ar lefel micro ar draws cymunedau.

Gofynnodd PK faint o gymunedau gwahanol sy'n cael eu targedu gan y Strategaeth Cymunedau Oed-gyfeillgar a beth fydd effaith hyn. Mynegodd RB y bydd profiadau pobl yn amrywio ar draws y sir yn dibynnu ar eu rhwydweithiau, eu cysylltiadau cymdeithasol ac elfennau eraill o fywyd. Cadarnhaodd mai'r prif ffocws yw edrych ar gryfderau'r boblogaeth hŷn, gan eu cefnogi i fod yn weithgar ac yn gysylltiedig yn y gymuned leol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod eu hasedau a'u cryfderau yn cael eu hystyried. Mae ymgysylltu â dinasyddion wedi bod yn digwydd – er enghraifft, drwy'r fforwm 50+, sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mynegodd AG fod tystiolaeth bod poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at fwy o alw am ofal iechyd a gofal cymdeithasol, a bod hyn yn aml yn gysylltiedig ag is-grŵp o bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy difreintiedig. Nododd fod cynlluniau i ddatblygu'r agenda 'Heneiddio'n Dda' ar draws y rhanbarth fel rhan o'r Ganolfan Arloesi Cymdeithasol. Mae prosiect peilot ar gyfer mentrau Heneiddio'n Dda hefyd yn cael ei gynllunio ar gyfer Gorllewin Cymru. Mynegodd IT, er y gall y genhedlaeth hŷn ddod â gwybodaeth a sgiliau defnyddiol i gymunedau, fod angen ystyried yn ofalus strwythur y gwaith hwn rhag ofn iddo arwain at fwy o bobl iau yn gadael y sir. Mynegodd fod angen i bobl iau hefyd gael rhan yn y gwaith hwn, gan sicrhau ein bod yn gyfeillgar i bob oed ac nid dim ond i'r garfan hŷn.

Awgrymodd PK y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael mwy o wybodaeth am y Ganolfan Arloesi Cymdeithasol er mwyn deall yn well y maes gwaith hwn. Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Trefnu cyflwyniad ar y Ganolfan Arloesi Cymdeithasol ar gyfer cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

*<u>Natur / Newid Hinsawdd</u>*

Darparwyd diweddariadau prosiect ar Addasu i'r Hinsawdd a Natur fel rhan o bapurau'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ddiweddariad ar ffrwd y prosiect Datgarboneiddio.

Dywedodd PK fod gwydnwch bwyd wedi'i drafod yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chwestiynodd a oes unrhyw gysylltiad i'w wneud â meysydd eraill o waith y Bwrdd, fel y prosiectau amgylcheddol. Cadarnhaodd IT ei fod wedi bod mewn cysylltiad ag NE ac LR i awgrymu bod eitem bwrpasol i drafod gwydnwch bwyd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref. Yn ddiweddar, cyfarfu TG â chydweithwyr iechyd y cyhoedd, a nododd fod gwaith da yn digwydd ar draws y rhanbarth ar wydnwch bwyd. Mae'r gwaith hwn yn arwyddocaol gan ei fod yn aml yn cysylltu â meysydd eraill fel tlodi, cymunedau, tai a'r amgylchedd. Ychwanegodd IT nad yw Sir Benfro wedi bod yn rhan o gwydnwch bwyd hyd yn hyn a bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn fwy ymwybodol o'r gwaith sydd ar gael i gefnogi hyn. Yn benodol, cyfarfu'r Bartneriaeth Bwyd Leol yn Sir Benfro yn ddiweddar yn y coleg ac yn HaverHub. Bydd lansiad meddal Arolwg Gwydnwch Bwyd Sir Benfro hefyd yn parhau tan ddiwedd mis Awst a bydd yn cael ei hyrwyddo yn y Sioe Sirol nesaf. Gall gwybod am brosiectau cyfredol yn Sir Benfro helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall cyfleoedd i gefnogi'r model gwydnwch bwyd yn y dyfodol.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Ychwanegu gwydnwch bwyd at yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref.

*Tlodi*

Rhoddodd DM yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffrwd waith Tlodi:

- Mae llwyfan yr Offeryn Tracio Teuluoedd Incwm Isel (LIFT) bellach ar waith ac mae ymgyrchoedd ar gyfer hyn yn cael eu gweithredu. Mae'r llwyfan hwn yn cyfuno nifer o setiau data, yn seiliedig ar ffactorau fel incwm a'r dreth gyngor, i nodi unigolion neu aelwydydd sydd â hawl i fudd-daliadau ond nad ydynt yn eu hawlio.
    - Bydd y cynnydd mewn arian i unigolion ac aelwydydd yn cael effaith ganlyniadol ar yr economi leol, gan y bydd pobl yn gwario mwy yn yr ardal leol. Bydd y llwyfan hefyd yn cefnogi'r awdurdod lleol, gan y bydd gan bobl fwy o arian i dalu am eu rhent eu hunain, y dreth gyngor a gofal cymdeithasol.
    - Dros yr wythnosau diwethaf, mae 15 o bobl wedi cael eu nodi gan blatfform LIFT fel rhai sy'n gymwys ar gyfer y Premiwm Anabledd Difrifol, er nad ydynt yn hawlio hwn ar hyn o bryd. I rai unigolion, bydd y taliad hwn yn cael ei ôl-ddyddio, sy'n golygu y gallent dderbyn miloedd o bunnoedd.
    - Mae ymgyrchoedd wedi'u targedu wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf:
        - Credyd pensiwn – nodwyd 160 o bobl fel rhai sy'n gymwys i gael credyd pensiwn ond nid ydynt yn ei hawlio. Bydd 30 llythyr yr wythnos yn cael eu hanfon dros yr ychydig fisoedd nesaf i wasgaru'r ymatebion sy'n dod i law ac i sicrhau nad yw partneriaid yn cael eu gorlwytho â cheisiadau. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgyrch hon yw ym mis Medi, gan y bydd y credyd pensiwn hefyd yn caniatáu i lawer hawlio'r taliad tanwydd gaeaf sydd newydd ei adfer.
        - Prydau ysgol am ddim – er bod gan bob plentyn mewn ysgolion cynradd bellach yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, dylai rhieni y byddai eu plant eisoes wedi bod yn gymwys gofrestru o hyd gan ei fod yn sbarduno taliad i ysgolion.
        - Talebau Cychwyn Iach – ar hyn o bryd, nid yw 416 o bobl yn hawlio'r talebau hyn. Gallant ddarparu hyd at £1,200 dros bedair blynedd gyntaf bywyd plentyn.
    - Mae datganiad i'r wasg wedi'i drefnu ar gyfer ymgyrchoedd llwyfan LIFT i sicrhau bod pobl yn ymwybodol ei fod yn gyfreithlon.
    - Darperir rhywfaint o ddata a diweddariad ar gynnydd llwyfan LIFT a'i ymgyrchoedd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae People PWR – Prosiect Hawliau Lles Sir Benfro yn debyg i lwyfan LIFT gan ei fod yn cefnogi pobl i gael mynediad at fudd-daliadau y maent yn gymwys ar eu cyfer. Fodd bynnag, trwy atgyfeiriad yn unig mae'r prosiect hwn ar gael. O fis Ebrill i fis Mehefin, yr enillion cyfartalog fesul pen drwy'r prosiect hwn oedd £5,223.
- Mae cydweithwyr o ATD Fourth World, gan gynnwys cynrychiolydd profiad bywyd, wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Gweithgor Tlodi ym mis Tachwedd.

Mynegodd MT fod gwaith y llwyfan LIFT yn ymddangos yn rhagweithiol iawn o ran darparu cefnogaeth a goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag gofyn am gymorth. Nododd DM fod darn pwysig arall o waith yn cael ei wneud, dan arweiniad gwasanaethau tai, sy'n edrych ar ddeg unigolyn ag anghenion cymhleth a sut maen nhw'n rhyngweithio ar yr un pryd â nifer o wasanaethau gwahanol.

## 5. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 – mapio argymhellion ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Cadarnhaodd NE nad oes disgwyl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ond y bydd sefydliadau unigol, fel y cyngor a'r bwrdd iechyd, yn gwneud hynny. Mynegodd y byddai'n dal i fod yn ddefnyddiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu ymateb gan ei bod yn debygol y gofynnir, yn y pen draw, i Fyrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus ddangos sut y maent wedi ystyried ac ymateb i argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd NE mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 31 Hydref. Nododd PK y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weld ymatebion y bwrdd iechyd a'r cyngor cyn ystyried ei ymateb. Ychwanegodd DM y bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn cael ei ddiweddaru erbyn mis Hydref, a allai hefyd fod yn ddefnyddiol i'w ystyried wrth edrych ar ymateb gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Ailystyried argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfod mis Hydref fel y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus benderfynu a ddylid ymateb.

**6. Cynnig i drafod opsiynau ar gyfer creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol**

Rhoddodd NE yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith, a ysgogwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, ynghylch sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol. Ychwanegodd y byddai papur opsiynau yn barod i'w drafod yn y dyfodol agos a bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno a oedd am gael y papur.

Nodwyd y pwyntiau canlynol drwy drafodaeth:

- PK – Byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o leiaf ystyried beth yw'r opsiynau cyn gwneud penderfyniad terfynol.
- TG – Byddai bod yn rhan o'r broses gynllunio yn ystod y cam hwn yn sicrhau na fydd llais Sir Benfro yn cael ei wanhau pe bai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol yn cael ei sefydlu. Dylid derbyn papur opsiynau ond gall Sir Benfro dynnu'n ôl os nad yw'r opsiynau'n addas.
- JB – Nid yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol yn addas gan y gallai rwystro cyllid, adnoddau a rhannu arfer da ar lefel leol. Fodd bynnag, byddai'n dal yn ddiddorol gweld yr opsiynau arfaethedig.
- AP – Mae'n gydbwysedd anodd gan fod rhai asiantaethau'n rhan o sawl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn aml yn cael trafferth dod o hyd i gapasiti. Byddai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol yn ei gwneud hi'n haws mynychu cyfarfodydd i bartneriaid sy'n rhan o ystod eang o fyrddau ar draws y rhanbarth.
- AG – Er y byddai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol yn ddefnyddiol i rannu gwaith lefel uchel, mae risg y gellir colli gwaith pwysig ar y lefel leol. Ni all Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro wneud penderfyniad gwybodus am hyn nes y derbynnir papur opsiynau.
- MH – Gallai rhai themâu a phrosiectau ar agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus elwa o ffocws rhanbarthol. Byddai hefyd yn ei gwneud hi'n haws i'r Gwasanaeth Tân, sydd ar hyn o bryd yn rhan o chwe bwrdd gwahanol. Mae hefyd yn bosibl y gallai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol arwain at gael mwy o gyllid ac adnoddau. Fodd bynnag, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus unigol yn dangos gwerth y gwaith i gymunedau yn well a gallai hyn gael ei golli ar lefel ranbarthol.
- CD – Mae tystiolaeth gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill bod y model rhanbarthol yn ddull gwerthfawr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ei ymrwymiad i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus waeth beth fo'r canlyniad.
- MT – Dylai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro fod yn ofalus ynghylch tynnu sylw oddi ar gyflawni ei waith lleol a'i weithgarwch cymunedol.

Roedd y grŵp yn cytuno y dylai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro dderbyn y papur opsiynau. Gofynnodd MT pryd y byddai modd gweld y papur. Cadarnhaodd NE ei fod wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod mis Hydref ar hyn o bryd, ond y byddai cyn diwedd y flwyddyn

fan bellaf. Bydd NE ac LR yn parhau i weithio gyda swyddogion cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled y rhanbarth i ymgymryd â'r gwaith hwn. Byddant yn cyfarfod yn fuan â swyddogion o Wynedd, sydd wedi uno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn yn ddiweddar, i ddysgu mwy am y broses. Ychwanegodd NE, os sefydlir Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol, y byddai'n ddefnyddiol os bydd ar waith cyn ysgrifennu'r asesiad a chynlluniau llesiant. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n debyg y bydd angen i bob partner statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried eu cyrff llywodraethiant eu hunain er mwyn ymwahanu o'r trefniant presennol a symud i drefniant rhanbarthol. Bydd cydweithwyr yn parhau i weithio i sicrhau bod y broses yn cael ei dilyn yn gywir ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

## 7. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.59pm.

**Cofnod o'r camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | Trefnu cyflwyniad ar y Ganolfan Arloesi Cymdeithasol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol | - | PK/AG | |
| 2 | 4 | Ychwanegu gwydnwch bwyd at yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref | Erbyn y cyfarfod nesaf | IT/LR | Wedi'i gwblhau – ar yr agenda |
| 3 | 5 | Ailystyried argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfod mis Hydref fel y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus benderfynu a ddylid darparu ymateb | Erbyn y cyfarfod nesaf | LR/NE | Wedi'i gwblhau – ar yr agenda |